PWYLLGOR CYNLLUNIO

DYDD MAWRTH, 8 EBRILL 2025

PRESENNOL Cynghorydd W.T. Evans (Cadeirydd) (Yn Rhithwir)

Cynghorwyr (Yn y Siambr):

S.M. Allen	J.M. Charles	P. Cooper	J.K. Howell
J.D. James	M.J.A. Lewis	D. Nicholas	B.D.J. Phillips
D.E. Williams	S. Williams		

Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):
Y Cynghorydd E.G. Thomas, a fu'n annerch y Pwyllgor ynghylch Cais Cynllunio rhif PL/06580.

Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):
R. Griffiths, Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd;
R. Edgecombe, Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol;
I.R. Llewelyn, Rheolwr Blaen-gynllunio;
H. Rice, Uwch Swyddog Rheoli Datblygu;
G. Morgan, Atkins - Ymgynghorydd Fframwaith;
R. Morris, Swyddog Cefnogi Aelodau;
S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd;
J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

Siambr, Neuadd Y Sir, Caerfyrddin, SA31 1JP: 12:00yp - 1:43yp

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr M. Donoghue a D. Owen.

2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

3. PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO

PENDERFYNWYD caniatáu'r cais cynllunio canlynol yn amodol ar yr amodau yn Adroddiad/Atodiad y Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd a/neu y rhoddwyd gwybod amdanynt yn y cyfarfod:-

PL/06580	**Datblygiad preswyl arfaethedig, ffordd fynediad a seilwaith cysylltiedig ar dir ym Mharc Pencrug a gwaith draenio cysylltiedig ar dir ym Mharc Pencrug a Maes y Farchnad, Llandeilo** Cyfeiriodd yr Uwch-swyddog Rheoli Datblygu at ymweliad preifat y Pwyllgor â'r safle'n gynharach y diwrnod hwnnw (gweler cofnod 3.2 o gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio ar

	11 Mawrth 2025), a drefnwyd er mwyn i'r Pwyllgor gael golwg ar y safle mewn perthynas â phryderon a godwyd ynghylch traffig a chysylltedd. Yn ogystal, byddai Ymweliad Safle yn galluogi'r Pwyllgor i gynnal asesiad o'r cais gan ystyried cyd-destun a thopograffeg y safle. Cyfeiriodd, gyda chymorth sleidiau PowerPoint, at adroddiad ysgrifenedig y Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd a oedd yn rhoi arfarniad o'r safle, ynghyd â disgrifiad o'r cynnig, crynodeb o'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad a gwybodaeth am y polisïau lleol a chenedlaethol a oedd yn berthnasol wrth asesu'r cais. Dywedwyd wrth y Pwyllgor bod y Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd yn argymell cymeradwyo'r cais am y rhesymau a nodir yn yr adroddiad ysgrifenedig. Daeth sylw i law a wrthwynebai'r cais, ac a ailbwysleisiai'r pwyntiau y manylwyd arnynt yn adroddiad ysgrifenedig y Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd gan gyfeirio'n benodol at y materion traffig a thrafnidiaeth a'r diffyg ymgynghori. Yn ogystal, cafwyd sylw gan yr aelod lleol yn gwrthwynebu'r cais ar sail y ffaith bod diffyg cysylltedd â'r dref, y siopau ac ysgolion drwy'r fynedfa arfaethedig ar ystâd bresennol Parc Pencrug a oedd ymhell o fod yn addas. Effaith y datblygiad o ran dylunio, cynllun, creu lleoedd a chreu nodweddion cynnal i ymateb i dopograffeg y safle. Cyfeiriwyd at y pryderon a godwyd gan Gomisiwn Dylunio Cymru a lefel y pryderon a fynegwyd gan drigolion lleol; a'r diffyg ymgynghori / rhyngweithio digonol â'r datblygwyr. Ymatebodd yr Ymgeisydd a'r Uwch-swyddog Rheoli Datblygu i'r materion a godwyd.

CADEIRYDD **DYDDIAD**